



<b>CYFARFOD</b>	<b>Cydbwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	26 Chwefror 2020
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb GwE 2019/20 – Adolygiad 3ydd Chwarter</b>
<b>PWRPAS</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2019/20.</li> <li>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.</li> </ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr adroddiad.
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

## 1. CASGLIAD

- 1.1 Mae'r adolygiad chwarter 3 yn amcangyfrif gorwariant net o £27,634 yn erbyn y gyllideb (sefyllfa tebygol derbyniol, lled-niwtral yng nghyd-destun cyfanswm gwariant gros dros £14m), yn bennaf oherwydd y targed arbedion sydd wedi'i ddarganfod gan y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.
- 1.2 Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn chwarter 2, sef amcangyfrif gorwariant o £36,503.
- 1.3 Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

### 2.1 **Gweithwyr:**

**Chwarter 3: gorwariant £39,249 Chwarter 2: gorwariant £45,442.**

Gorwariant o £39,249 yn dilyn penderfyniad y Cydbwyllgor (gweler adroddiad 'Targed Arbedion Effeithlonrwydd' i'r Cydbwyllgor 11/09/19), i addasu'r gyllideb i dynnu rôl un Cyfarwyddwyr Cynorthwyol GwE yn ogystal â thynnu 1.4 cyferth llawn amser Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant.

Gweithredwyd y lleihad i'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o'r 1<sup>af</sup> o Fedi 2019, ac felly bydd gorwariant un-tro yn 2019-20.

### 2.2 **Cludiant:**

**Chwarter 3: tanwariant (£9,017) Chwarter 2: tanwariant (£7,697).**

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2. Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb.

### 2.3 **Arbedion i'w darganfod**

**Chwarter 3 : Niwtral Chwarter 2 : Niwtral.**

Yn chwarter 1 adroddwyd ar orwariant o £206,485, gan nad oedd y Cydbwyllgor wedi penderfynu ar strategaeth barhaol i wireddu'r arbedion. Bellach mae'r strategaeth wedi ei gymeradwyo (gweler adroddiad 'Targed Arbedion Effeithlonrwydd' i'r Cydbwyllgor 11/09/19).

Wrth weithredu yn yr hydref, nid oedd yn bosib i gynhaefu'r arbediad yn llawn yn 2019/20, sy'n arwain at orwariant yn 2.1.

2.4 **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)**  
**Chwarter 3 : Niwtral Chwarter 2 : Niwtral.**

Mae'r GGYCR yn cynnwys pennawd penodol ar gyfer secondiad y Cyfarwyddwr Cynorthwyol am gyfnod o flwyddyn. Gan fod y secondiad wedi dod i ben ar y 31 Awst 2019, a thelerau Llywodraeth Cymru yn nodi fod yr arian yn benodol i'r pwrpas yma, disgwylir bydd yr arian sy'n weddill yn cael ei adhawlio.

Dadansoddi'r grant gyflawn isod:

Datganoledig*	£26,064,004
Heb ei ddatganoli	£ 8,400,487
Cyfanswm	<b><u>£34,464,491</u></b>
Grant	£31,978,211
Arian Cyfatebol	£ 2,486,280
Cyfanswm	<b><u>£34,464,491</u></b>

\* Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

**3. CRONFA TANWARIANT**

- 3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2019/20 oedd £278,201.
- 3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa ('balansau cyffredinol' GwE) ar ddiwedd 2019/20 yn £250,567, wedi ystyried y gorwariant net a ragwelir uchod.

**ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2019/20 – Adolygiad 3ydd Chwarter.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.